

## **Cyngor Cymuned Eglwys Bach - Cofnodion Cyfarfod 09/05/17**

**PRESENNOL:** Cyngorwyr: Austin Roberts, John Emlyn Jones (cofnodwr), Gwilym Williams, John Lloyd Williams, Ceri Leeder, Gwyn Morris Jones ac Arthur Williams.

**YMDDIHEURIADAU:** DIM

**DATGAN DIDDORDEB:** DIM

Roedd yr aelodau wedi cwblhau ffurflen derbyn swydd a datganiad o ddiddordebau cyn y cyfarfod.

**ETHOL SWYDDOGION:** Etholwyd y Cyngorwyr Gwyn Morris Jones yn gadeirydd a John Emlyn Jones fel is-gadeirydd.

**ETHOL CYNRYCHIOLWYR:** Etholwyd y Cynghorydd Arthur Williams fel aelod i gynrychioli'r Cyngor ar Fwrdd Llywodraethol Ysgol Eglwys Bach a'r Cynghorydd John Emlyn Jones i gynrychioli'r Cyngor ar bwyllgor Neuadd y Pentref.

Wrth gymryd y gadair, diolchodd y Cynghorydd Gwyn Morris Jones i'r Cynghorydd Austin Roberts am ei waith caled fel cadeirydd y Cyngor Cymuned ac fel Cynghorydd Sir dros y flwyddyn ddiwethaf.

**CÔD YMDDYGIAD:** Rhanwyd copïau o Gôd Ymddygiad y Cyngor i'r Cyngorwyr a mabwysiadwyd fel côd ymddygiad y Cyngor.

**COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF:** Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod diwethaf (03/04/17)

**MATERION YN CODI:**

**Pont Ffordd Bryn Hir-** Deallwyd fod CBS Conwy wedi gwneud cais i Lywodraeth Cymru am gymorthdal i wneud gwaith o amgylch y bont ynghyd â phrosiectau eraill yn y Sir. Mynegodd y Cynghorydd Austin Roberts ei fod wedi pwysleisio y dylai'r gwaith gael ei gwblhau cyn mis Medi.

**Arwydd Canolfan Bwyd Cymru** - Dim ymateb gan Lywodrarth Cymru hyd yma.

**Y Diffibrilydd** - Cytunodd y Cynghorydd John Lloyd Williams holi ysgrifennydd pwyllgor y Neuadd am ganiatâd i osod arwydd ar y Neuadd a'r Cynghorydd Austin Roberets i holi swyddogion y Sir am y posiblwydd o osod arwyddion ar y polion arwyddion ffordd.

**Sŵn Cŵn yn Cyfarth-** Deallwyd fod swyddogion o'r Cyngor Sir wedi bod yn ymweld â'r pentref.

**Parcio ar y Glaswellt ger y polyn fflag** -Nododd y Cynghordd Austin Roberts fod Mr Elwyn Williams yn awgrymu cael gair gyda swyddogion Cartrefi Conwy.

**Y Polyn Fflag** - Penderfynwyd ymweld â'r safle ar ôl y cyfarfod heno i drafod beth i'w wneud gyda'r polyn sy'n gwyro.

**Ysgol Eglwys Bach** - Mynegodd y Cynhorydd Gwyn Morris Jones (fel Cadeirydd Corff Llywodraethol Ysgol Eglwys Bach) ei werthfawrogiad i'r Cyngor am eu cyfraniad tuag at adnewyddu toiledau'r ysgol.

**Materion Prifffyrdd**- Nododd y Cynghorydd Austin Roberts ei fod wedi derbyn sicrwydd y bydd gwaith ar Allt Croesengan rhwng Chweffordd a Thyn Twll yn cael ei wneud cyn yr hydref.

**Ffens ger yr Ysgol** - Cafwyd ar ddeall mai dim ond rhan o'r dorlan sydd ym mherchnogaeth y Cyngor Sir felly mae trafodaethau yn cael eu cynnal gyda pherchenog gweddill y tir. Mae'r Cynghordd Austin Roberts wedi gofyn am gopiâu o gofnodion y pwyllgor sy'n trafod er mwyn dod yn ôl at y Cyngor Cymuned.

**Noson Tân Gwyllt**- Cytunodd y Cadeirdd i gael gair gyda Chymdeithas Rhieni ac Athrawon yr ysgol i weld os oedd ganddynt ddi-ddodeb trefnu'r noson.

### **Ceisiadau Cynllunio** -

*0/43932 Helmydd*

*Penderfynwyd: Anfon at CBS Conwy i ddweud bod gan y Cyngor yr un pryderon ac yng Ngorffennaf 2014 sef:*

- anhawser i weld y fynedfa mewn man lle mae'r drafndiath yn gallu gyrru yn gyflym*
- byddai mynediad ar ochr yr eiddo i ffordd lai cyn mynediad i'r ffordd brysurach yn well opsiwn*
- mynegwyd pryderon parthed colli cynefin wrth godi gwrych*

### **Taliadau** -

Sue Hayward (glanhau toiledau Ebrill) £98  
Neuadd Aberconwy (hurio ystafell) £33  
W D Williams (torri glaswellt y fynwent) £330

**Baner**- Cytunodd Y Cynghorydd Ceri Leeder i drefnu pwrcasu baner newydd.

**Asesiad Risg** - Trafodwyd yr asesiad risg presennol.

*Penderfynwyd: Nodi'r canlynol i'w ychwanegu ar y rhestr.*

- diffyg presenoldeb yn y cyfarfodydd*
- newidiadau i Lywodraeth Leol*
- sgip cymunedol*
- polyn fflag*
- hysbysfwrdd*
- bwrdd tennis bwrdd*
- y cae chwarae*
- toiledau cyhoeddus*

**Cytundeb gwaith Clerc** - Derbyniwyd esiampl o gopi o gytundeb gwaith cleric oddi wrth Un Llais Cymru. Cytunodd Y Cadeirydd, is-gadeirydd a'r Cynghorydd Austin Roberts i gael golwg arno.

**Un Llais Cymru:** Cyunodd y Cynghorwyr John Lloyd Williams a John Emlyn Jones i gynrychioli'r Cyngor ar bwyllgor rhanbarthol Un Llais Cymru.

### **Gohebiaeth -**

Derbyniwyd llythyr oddi wrth un o drigolion Heol Carrog yn mynegi pryder am y ffaith fod y ceir sy'n parcio gyferbyn â Bryn Garrog yn pery anhawster i yrwyr weld yn glir wrth agosàu at y gyffordd gyda Heol Martin.

***Penderfynwyd: Cytunodd y Cynghordd Austin Roberts gysylltu gyda swyddogion y Cyngor Sir i holi am y posibilrwydd o gael Illnellau melyn ger cyffordd Heol Martin a Ffordd Eglwys Bach.***

Derbyniwyd llythyr oddi wrth un o drigolion Mae Llan yn mynegi pryder fod yr hysbyswrdd ger y Neuadd yn anodd i'w ddefnyddio oherwydd pwysau'r drws yn bennaf a'i fod yn agor ar i fyny.

***Penderfynwyd: Edrych i mewn i'r posibilrwydd o bwrcasu hysbyswrdd newydd a'i osod ger y polyn fflag. Y Cynghorwyr Austin Roberts i holi parthed caniatàd cynllunio a John Emlyn Jones i holi am brisiau hysbyswrdd newydd.***

**Mieri ar wal y fynwent:** Mae un o drigolion Heol Martin sydd a'i dir yn ffinio ar y fynwent wedi mynegi pryder am y mieri sydd ar y wal.

***Penderfynwyd: Cytunodd y Cynghorydd Austin Roberts i ymchwilio i'r mater a chael gair gyda Mr W D Williams i ofyn iddo naill ai chwistrellu chwyn laddwr neu torri'r mieri yn y bôn. Mynegodd y Cynghorwyr Ceri Leeder a John Emlyn Jones eu gwrthwynebiad cryf i chwistrellu chwyn laddwr ac mai dim ond fel y dewis olaf.***

**Tyllau ar Ffordd Bodnant:** Nodwyd fod tyllau wedi ymddangos yn y ffordd ger meithrinfa Gardd Bodnant. Hysbysodd y Cynghorydd Austin Roberts ei fod wedi tynnu sylw swyddogion y Cyngor Sir at hyn.

**Gosod Polion BT.** Mynegodd y Cadeirydd ei anfodlonrwydd ei fod wedi clywed fod BT yn bwriadu gosod 19 polyn rhwng Waunfechan a Chapel Nebo. Nododd y Cynghorydd Austin Roberts ei fod wedi cael gair gyda swyddogion y Cyngor Sir ac nid oeddent yn ymwybodol o'r bwriad.

**Gwefan y Cyngor:** Nodwyd nad oedd safwe'r Cyngor Cymuned yn ymddangos yn uchel wrth rhoi Eglwys Bach i mewn i Google.

***Penderfynwyd: Cael gael gair gyda'r cwmni sy'n cynnal y wefan.***

**Dyddiad y Cyfarfod Nesaf -** Mehefin 5ed am 7:30

